



Olion o Oes yr Efydd ar Fynydd Rhiw

Olion yr Oesau Cynnar yn Llŷn

Mae rhai arfau o Oes y Cerrig wedi cael eu darganfod yn yr ardal, ar Drwyn Llanbedrog ac ar ben Cilan. Maent wedi'u dyddio o'r Oes Fesolithig yn brawf fod pobl yn byw yma rhwng 8,000 a 4,000 CC. Dyna'r bobl gynharaf a thua 3,000 CC roedd pobl yn cloddio am gerrig i wneud arfau ar lethrau Mynydd Rhiw. Roedd yr un datblygiad i'w weld ledled Ewrop mewn cyfnod pan oedd dyn yn newid o fod yn heliwr i fod yn amaethwr.

Yn yr oes hon cafodd cromlechi porth mawrion eu codi, sydd i'w gweld yn Llŷn a rhai tebyg ar hyd yr arfordir gorllewinol o Gernyw a throsodd i Iwerddon. Mae'r cromlech ym Machwen Clynog yn enghraifft dda.

Yn gynnar yn Oes yr Efydd (2500-1500 CC) codwyd y meini hirion sy'n gyffredin yn Llŷn. Dyfalu a wnawn pam y cafodd y meini talsyth eu codi, ond bellach maent ynghanol caeau a mewn waliau neu i fod yn gilbyst adwyon. Efallai fod rhai wedi'u symud o'u safleoedd gwreiddiol am ryw reswm.

Roedd pobl Oes yr Efydd yn amlosgi'r meirw a'u claddu dan garneddi, yn aml ar gopaon brynau fel

ar Garnguwch a mannau eraill lle mae'r elfen 'carn' yn ymddangos yn yr enw.

Roedd copaon yn drigfannau arallfydol, yn fannau hudolus ac arswydus. Yma y cai pennaeth y llwyth ei gladdu.

Roedd y copaon a'r ucheldir yn bwysig i amaethwyr y cyfnod nesaf – Oes yr Haearn (750CC – 43 AD). Yma cododd rhain eu bryngaerau wedi'i amgylchynu â ffosydd, cloddiau cerrig, neu goed a phridd er mwyn gwarchod ac amddiffyn eu teuluoedd a'u hanifeiliaid.

Mae ceirydd Tre'r Ceiri a Garn Boduan ar y copaon.

Ym Mhorthdinllaen mae olion caer arfordirol o'r un cyfnod.

Tybed fyddai'r pererinion yn ymweld â'r olion cyntefig neu yn eu hanwybyddu oherwydd eu cysylltiadau 'paganidd'?

Cafodd cytiau crynion eu codi'n ddiweddar yn Y Felin Uchaf, Rhoshirwaun fel rhan o Fenter Gweledigaethol Cymdeithasol.



Cromlechi



Cromlech Bryn Parc, Llanbedrog

Yn agos i'r llwybr sy'n rhedeg i'r gorllewin o gopa Mynydd Tir y Cwmwd mae Cromlech Bryn Parc. Dim ond y penllech sydd yn aros (SH32513110).

Dyna'r gwir hefyd am Gromlech Cilan (SH 30022352).

Mae amryw o'r cromlechi porth mawr a welir ar hyd arfordir gorllewinol Ynysoedd Prydain i'w gweld yn Llŷn.

Tybed fyddai'r pererinion ar eu taith i Ynys Enlli yn cymryd unrhyw sylw ohonynt?

Cafodd cromlechi Llŷn eu codi yn yr Oes Neolithig Gynnar (hyd at 4,000 CC) fel beddrodau mewn lleoedd amlwg, ar godiad tir, neu mewn llecyn ble mae golygfa glir o fynydd, neu mewn man amlwg ar yr arfordir.

Byddent yn cael eu codi am iddi ddod yn arferiad i gladdu'r meirw yn dorfol gan gladdu'r esgyrn neu eu hamlosgi. Byddai claddu'r meirw fel hyn yn rhyddhau'r ysbryd ac yn gyfle i goffáu teuluoedd ac anrhydeddu cyndeidiau. Mae'n debygol iawn hefyd y byddai seremonïau o gwmpas y cromlechi. Yno byddent yn anrhydeddu'r duwiau ac yn dathlu arwyddocâd troad y rhod a digwyddiadau arwyddocaol yr almanac. Byddai seryddiaeth yn chwarae rhan amlwg ym mywydau'r trigolion hefyd.

Mae'n ddirgelwch sut y cafodd y meini eu symud a'u codi, a hynny ganrifoedd cyn codi pyramidiau'r Aifft. Y safle i godi'r cromlech a gâi ei ddewis gyntaf ac nid lleoliad y cerrig. Mae'r penllechi anferth yn pwyso o leiaf 25 tunnell a champ enfawr oedd eu symud hwy a'r meini eraill cryn bellter. Mae'n debyg bod y cromlechi wedi'u codi ganrifoedd cyn iddynt ddod yn gladdfeydd.

I ychwanegu at y dirgelwch mae echelin hwyaf y mwyafrif ohonynt yn rhedeg o'r gogledd i'r de a'r penllech yn goleddu 23½°, sef ongl goleddiad y ddaear mewn perthynas â'r haul. Pa arwyddocâd sydd i hynny?

Dim ond y meini mawrion sydd i'w gweld bellach yn Llŷn ac mae'r pridd a'r cerrig oedd yn eu gorchuddio wedi diflannu. Gallwn leoli'r siambr gladdu o dan y penllech a'r fynedfa

rhwng dwy o'r cerrig sydd ar eu sefyll. Y fynedfa hon sydd yn rhoi iddi'r enw 'cromlech borth'.

Er fod dwy cromlech i'w gweld yn yr ardal hon yn anffodus dim ond penllechi'r ddwy sy'n aros. Mae un ohonynt yn Llanbedrog a'r llall yng Nghilan.

Cromlech Cilan a Llanbedrog



Cromlech Cilan (SH 30022352)

Cyfarwyddiadau: Mae'r cromlech ar dir fferm Cilan Uchaf, Cilan ar ben deheuol eithaf ffordd di-ddosbarth sydd wedi'i arwyddo o Abersoch i gyfeiriad Sarn Bach, Bwlchtocyn, Cilan. Mae hi led tri chae i'r de-ddwyrain o'r fferm uwchben gallt y môr.

Codwyd y cromlech hon mewn safle dramatig ar ben clogwyni'r môr uwchben Trwyn Llech y Doll gyda golygfa dros ogledd Bae Ceredigion a mynyddoedd Meirionnydd ac Eryri.

Dim ond y penllech sydd i'w gweld bellach. Mae atgofion hynafgw a gofnodwyd yn yr 1920au yn sôn am feini eraill wedi'u gwasgaru o gwmpas.

Cromlech Bryn Parc, Llanbedrog (SH32513110)

Cyfarwyddiadau: Dilynwch arwyddion i gopa Mynydd Tir y Cwmwd o ffordd di-ddosbarth Craig y Llan (Neuadd yr Eglwys, Llanbedrog i'r A499 (Llanbedrog – Abersoch). Mae ar y chwith wrth gychwyn ar y llwybr ar y mynydd agored.

Y penllech yn unig sydd i'w weld a marciau tebyg i gwpanau ynddo.

Meini Hirion

Mae dyddio'r meini'n parhau'n ddirgelwch ond mae cytundeb iddynt gael eu codi yn gynnar yn Oes yr Efydd (2500-1500 CC)



Maen Hir Meillionen, Boduan

Dyfalw a wnawn pam y cafodd y meini urddasol eu codi ynghanol caeau, eu gosod mewn waliau neu i fod yn gilbyst adwyon.

Dydi hi chwaith ddim yn dilyn mai maen hir yw pob carreg sy'n ymddangos felly, ac efallai fod rhai wedi'u symud am ryw reswm o'u safleoedd gwreiddiol.

Oes arwyddocâd i'w safleoedd mewn perthynas â'r mynyddoedd cyfagos megis Garn Fadryn neu Fynydd Rhiw – mannau sanctaidd yn yr Hen Oes? Ai cerrig beddi dydynt i arwyr neu benaethiaid llwythi? A gawsant eu defnyddio mewn seremonïau 'paganaidd' a bod o bosib elfen Gristnogol wedi'i ychwanegu'n ddiweddarach? Ai eu codi i'w defnyddio mewn astudiaethau seryddol oedd y bwriad? Oes arwyddocâd i'w safleoedd mewn perthynas â'r tymhorau, codiad yr haul ar Alban Hefin (hirdydd haf) neu gylchdro'r lleuad? Neu ai mynegbyst i gyfeirio teithwyr yn ystod y canrifoedd cynnar oeddent? Pwy a wŷr.

Nid ar fympwy y cawsant hwy eu codi ar y safleoedd presennol gan mai nid ar chwarae bach y cawsant eu llusgo gryn bellter yno.

Cawsant eu symud i'w safleoedd presennol gyda'r bwriad, mae'n bur debyg, o'u troi'n fangre Gristnogol.

Maen Hir Pandy, Nanhoron yw'r maen hir agosaf i Blas Glyn y Weddw:

Maen Hir Pandy, Nanhoron (SH SH28803230)

Cyfarwyddiadau: Fe'i gwelir orau o Lôn Drain, Nanhoron. Cymryd y Lôn Newydd (B4415: Nanhoron – Rhydyclafdy) 300m o Nanhoron a throi i'r chwith ger Felin Newydd. O ben uchaf yr allt edrych tua'r dwyrain a gwelir y maen hir ar draws y dyffryn.

Maen cymharol fyr ydi hwn, cwta 2m yn sefyll ar dir agored yn edrych dros goedydd dyffryn Nanhoron. Ceir

golygfa eang at Fynydd Rhiw a Thrwyn Cilan.

Honnir y gallai fod yn chwarae rhan mewn seryddiaeth gynnar. Mae mewn safle gwyh i wyllo'r machlud a chofio hefyd am y posibilrwydd fod Mynydd y Rhiw a Garn Fadryn yn safleoedd lle cynhelid seremonïau crefyddol cynhanes.

Dyma hefyd ble mae meini hirion mwyaf amlwg Llŷn -

- Maen Hir Gwynus, Pistyll (SH 34604210)
- Maen Hir Penfras, Llwyndyrus (SH 38004170)
- Maen Hir Nant y Gledrydd, Madryn (SH 29353650)
- Maen Hir Sarn Mellteyrn (SH 23713284)
- Maen Hir Plas ym Mhenllech, Penllech (SH 22253452)
- Maen Hir Llangwnadl (SH 20803250)
- Maen Hir Tan y Foel, Rhiw (SH 22612767)
- Maen Hir Bodegroes, Efailnewydd (SH35783536)
- Meini Hirion Tir Gwyn, Llannor (SH34423913)
- Maen Hir Glan Afon, Abererch (SH39203600)

Carneddi Llŷn



Moel Garnguwch

Erbyn diwedd yr Oes Neolithig daeth Pobl y Biceri (2800 – 1800CC) i fyw ym Mhrydain. Prin yw'r dystiolaeth o'r cyfnod hwn ond mae bedd cist, un ag ochrau carreg iddo wedi'i ddarganfod, yn Llithfaen. Roedd corff dyn tua 1.8 metr o daldra yn gorwedd ar ei ochr dde ynddo yn ogystal a bicer.

Ond erbyn Oes yr Efydd Gynnar yr arferiad oedd amlosgi'r meirw a'u claddu dan garneddi, yn aml ar gopaon brynïau fel rhai Llŷn. Câi carnedd syml o gerrig ei chodi a chylch o gerrig mwy eu rhoi o gwmpas ei godre.

Maent yn amrywio yn eu maint a'r fwyaf yn Llŷn yw'r un ar Foel Garnguwch. (SH 37454290). Roedd twr o gerrig arni'n wreiddiol, ond i hwnnw gael ei ddinistrio. Gyda'r cerrig arni byddai'r safle'n fwy trawiadol fyth.

Byddai'r trigolion lleol yn tyrru yma ar Nos Galan Gaea i danio coelcerth ond rhaid fyddai rhuthro adref cyn i'r Hwch Ddu Gwta eu dal.



Credai'r brodorion fod y copaon yn drigfannau i'r goruwchnaturiol a'u bod yn hudolus ac yn arswydus. Câi penaethiaid y llwyth eu hanrhydeddu trwy gael eu claddu ynddynt a hawdd credu y byddai'r garnedd yn gofadail ardderchog iddynt. Yn wir o'r fan honno gallent barhau i arglwyddiaethu. Gallent fod hefyd yn gofadail i'w traddodiadau neu i nodi eu tiriogaeth a'u hawdurdod.

Mae sawl carnedd yn yr ardal ond maent bellach mewn cyflwr gwael. Maent i'w gweld ar gopa'r Eifl, (SH 36464472), Mynydd y Rhiw (SH 23152975), a rhai llai amlwg bellach ar Garn Fadryn, Tre'r Ceiri, ac ar Foel Gron, Mynytho. Caent eu hadnabod fel Carnedd y Brenin Engan – copa amlycaf o fewn ei diriogaeth.

Mae carnedd hefyd ger Castell Odo ar Fynydd yr Ystum o'r enw Barclodiad y Gawres. (SH 18662849)

Bryngeyrydd Oes yr Haearn



Llun dychmygol o fryngaerau Penhengaer a Nant y Castell, Llanbedrog

Yn Llanbedrog mae dwy fryngaer ar glogwyni uchel yn gwarchod y ffordd o Lanbedrog i Abersoch.

Mae Penhengaer (SH32303147) ar y chwith i'r A499, Llanbedrog i Abersoch a Nant y Castell (SH32153145) ar y dde yn fryngeyrydd Oes yr Haearn. Tybed a godwyd hwy i warchod llwybr masnach trwy'r dyffryn?

Ceir amryw ohonynt yn Llŷn gan gynnwys yr enwocaf o'r cwbl ar ben Tre'r Ceiri. Mae rhai eraill i'w gweld ar Garn Fadryn, Castell Odo ar Fynydd yr Ystum a Chreigiau Gwinau, ar Fynydd Graig, Rhiw.

Ond roedd rhai yn gwarchod yr arfordir hefyd fel Castell Ysgubor Hen, Cilan. Mae mewn safle trawiadol ar ben y Pared Mawr, uwchben Porth Ceiriad. Byddai amddiffynfeydd naturiol i'w gwarchod – y môr, dibyn neu greigiau yn hytrach na rhagfuriau cerrig.

Dim ond olion y rhagfuriau sydd i'w gweld bellach. Mae cyfeiriad ati yn nechrau'r 20fedG fel 'Castell Yscuborhin' (SH 30372470)

Cyfarwyddiadau: Dilynwch y ffordd di-ddosbarth o Abersoch, trwy Sarn Bach i Cilan. Ewch heibio Capel Cilan ac mae i'w gweld ar ben gallt y môr gyferbyn a lôn fferm sy'n arwain i Ben Cilan.

Y gred gyffredinol ydi bod y Celtiaid wedi ymsefydlu yng Nghymru yn ystod Oes yr Haearn, 750 CC-43 AD, a hwy fu'n gyfrifol am godi'r bryngeyrydd sydd mor gyffredin yn Llŷn. Bellach mae rhai'n credu bod ffurf ar yr iaith Frythoneg yn cael ei siarad cyn hynny a bod pobl Oes yr Efydd wedi dechrau codi bryngeyrydd. Er gwaethaf yr enw dydyn nhw i gyd ddim ar gopaon brynau.

Amaethwyr oedd pobl Oes yr Haearn ac mae'n amlwg bod gwarchod teuluoedd ac anifeiliaid yn cael blaenoriaeth gan y cynllunwyr.

O gwmpas y ceirydd mae ffos, cloddiau cerrig, a choed a phridd hefyd o dro i dro – rhai sengl neu ddwbwl.

Mae tystiolaeth bod ceirydd yn cael eu hadnewyddu a'u hadfer mewn gwahanol gyfnodau ac felly bod adeiladwaith hŷn i'w weld o dan y gaer sydd wedi'i hadnewyddu.

Roedd waliau'r cytiau crwn yn y gorllewin wedi'u codi â cherrig ac felly hefyd yn Llŷn. Byddai'r coed i gynnal y to yn gorffwys ar y waliau a chaent eu toi â gwellt, brwyn neu dywyrch. Pridd wedi caledu fyddai'r llawr a hawdd credu y byddai brwyn wedi'u taenu arno a byddai sgriniau wedi'u codi i wahanu'r llefydd byw oddi wrth y gwelyau.

I gymhlethu pethau'n bellach efallai fod amddiffynfeydd ac adeiladau wedi'u codi ar ben ceirydd Oes yr Haearn yn yr Oesoedd Tywyll (400 – 900 AD). Dyma'r cyfnod pan gafodd cenedl y Cymry ei ffurfio ac esblygodd y Gymraeg o'r Frythoneg.

Cafodd cytiau crwn eu codi'n ddiweddar yn Y Felin Uchaf, Rhoshirwaun fel rhan o Brosiect Y Felin Uchaf, Rhoshirwaun – Menter Gweledigaethol Cymdeithasol.



Dilynwch y Stori...

Darganfyddwch mwy am fywyd cynhanesyddol trwy ymweld â Mynydd Cefn Amlwch – Siambr gladdu drawiadol sydd hefo cysylltiadau â'r Brenin Arthur.